Hanes Efail Isaf

Cychwyn y Pentref

Roedd dyn wedi ymsefydlu yn ardal y Garth ers Oes y Cerrig ac mae'r olynion cynharaf o'i waith i'w weld yn Cae'r Arfau rhwng Creigiau ac Efail Isaf.

Mae'r twmpathau ar ben y Garth yn dyddio o'r Oes Efydd

Mae'n amlwg fod ffermio wedi bod yn fodd i gynnal cymunedau yn yr ardal a gellir olrhain hanes nifer o ffermydd yr ardal dros y canrifoedd.

Ymhlith y ffermydd mae Fferm Celyn a Fferm Garth Uchaf.

Mae sôn yn 1671 am fwthyn Gwaun Hirion gyda efail wrth ei ymyl yn rhan o ystad y Ffrwd.

Roedd Gwaun Hirion (neu Gweunydd Hirion) ar safle presennol y Carpenter's Arms.

Map o tua 1830.

Hanes Cynnar

Y dystiolaeth archeolegol gynharaf yn yr ardal yw'r Gromlech yn Caer yr Arfau, Creigiau. Mae'n dangos fod pobl Neolithic wedi ymgartrefu yn yr ardal tua 6,000 o flynyddoedd yn ôl, tua 1,500 o flynyddoedd cyn cyfnod Côr y Cewri.

Cliriwyd y coedwigoedd yn yr ardal ar gyfer ffermio a magu anifeiliaid gan deuluoedd y rhai a gladdwyd yn y Tomenni Crwn ar ben y Garth 4000 o flynyddoedd yn ôl.

I reoli'r ardal adeiladwyd Caer yn ystod yr Oes Haearn tua 2500 o flynyddoedd yn ôl ar y bryn uwchben Hendresguthan i'r de o Efail Isaf.



Bryngaer Hendresguthan

Roedd rhai o drigolion cyntaf Efail Isaf yn byw yn y Bryn Gaer uwchben y pentref ger Coed Hendresguthan. Mae'r bryngaer mewn safle amlwg gyda golygfeydd i bob cyfeiriad. Tybier iddo gael ei adeiladu tua 2500 o flynyddoedd yn ôl yn yr Oes Cerrig.

Dyma ddisgrifiad Comisiwm Henebion Cymru o safle NPRN 409855:
"A univallate oval hillfort crowns the west-facing summit of a projecting spur at 165m above sea level. The most obvious surviving rampart blocks the easiest approach from the east, lying directly across the neck of the promontory. On the remaining sides the hillfort appears to be enclosed by scarp banks. The fort measures approx. 191m east-west by 94m north-south enclosing some 1.42 hectares. The site was first recognised from the air during RCAHMW aerial reconnaissance in the dry summer of 2006 (AP_2006_3207) when parching picked out the main eastern rampart against the hill pasture."
(http://www.coflein.gov.uk/cy/safle/409855)

Efail Isaf o'r bryngaer

Ffermydd

Cliriwyd coedwigoedd yr ardal ar gyfer amaethu a chadw anifeiliad gan deuluoedd y rhai a gladdwyd yn y Tomeni Crwn ar ben Mynydd y Garth dros 4000 o flynyddoedd yn ôl. Yna bu'r ardal o dan ddylanwad y Celtiaid a lluoedd arfog Rhufain.

Gellir olrhain perchnogaeth nifer o ffermydd yr ardal i deulu Hywel ap Meredith, Arglwydd Cymreig olaf Meisgyn. Fe'i orchfygwyd gan Richard de Clare yn 1246. Ond roedd yr Arglwyddi Cymreig yn parhau i gadw eu tir ar yr amod eu bod yn cydweithio gyda'r Normanaid.

Prif ffermydd yr ardal oedd Garth Fawr, Maes Mawr, Celyn, Dyffryn, Dyhewyd, Bryn Menyn, Ystrad Berwg a Hendresguthan. Mae rhai o'r adeiladau cynnar yn dyddio o'r 16 a 17 ganrif.

Roedd y felin hefyd yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ardal.

Y Pentrefwyr yn 1884

Mallt o'r Dyffryn

Roedd Lewis Williams yn brifathro Ysgol y Sir Llanilltud Faerdref a bu'n casglu hanes yr ardal yn arbennig y cyfnod 1700 - 1800. Yn dilyn ei ymddeoliad ysgrifennodd lyfr yn 1912 yn casglu llawer o hanesion ac awyrgylch y cyfnod hwnnw. Mae'n lyfr gwerthfawr sy'n llewni bwlch mawr yn ein gwybodaeth am fywyd amaethyddol yr ardal.

Gellir darllen rhan gyntaf Mallt o'r Dyffryn yma >> Mallt





"MALLT O'R DYFFRYN"

Being a historical sketch of the Parish of Llantwit Faerdref, taken from the old Parish Books of 1734: giving the history of Thomas Evans, Esq., and Mallt Evans, of Dyffryn Dowlais; James Thomas, Esq., of Garth Fawr; Dic Debewyd, the murderer; Twm o'r Trallwm; Will ap Evan and Gwenllian Thomas, y Prydyddion; Evan Ddu o'r Pant; Thomas Hopkin o'r Celyn, and Thomas Rosser, Ty'n y Waun, the lay preachers; Old Nell of Ty Nell, and Mari Evans, Squire Evans' old servant,

By

LEWIS WILLIAMS,

(Late Headmaster of Llantwit Faerdref Council Schools).

Glofeydd

Mae'r gwythiennau glo yn dod i'r brig yn ardal Efail Isaf ac felly roedd yr ardal hon ymhlith yr ardaloedd cyntaf i'w gweithio. Doedd dim angen tyllu yn ddwfn ond roedd y tir yn wlyb iawn a'r amgylchiadau yn anodd. Wrth adeiladu'r ffordd osgoi newydd gwelwyd olion rhai o'r pyllau cynharaf yn Nant Celyn a Bryn Menyn ac Ystrad Barwig.

Roedd Edward Llwyd yn ysgrifennu yn 1699 am y gweithfeydd glo yng Nghastellau a Rhiw Saeson ac roedd llawer iawn o weithfeydd glo ym mhlwyf Llanilltud Faerdref. Roeddynt yn lofeydd bach ar gyfer cynhesu tai, bragu cwrw a llosgi calch at ddibenion amaethyddol. Meddai Ficer Llantrisant wrth Edward Llwyd “Coal works have been and are diged up in severall place, those that are viz, Mase mawr & bryn y menin.” Hefyd mewn ateb i Edward Llwyd dywedodd Charles Jevans o Dyffryn Dowlais “Coale works very numerous in most gorunds in the parish. Att Bryner menin is a fine coale that burns bright & yet is lasting to wch. being mixt with the coale dugg at Cystelle makes a godd bright & a lasting fire tryed by my self this sumer, but Brynne menin of itself is not soe lasting but affords a bright fire. Coale likewise at maes mawr & maes bach.”

Erbyn 1793 roedd perchnogion gwaith haearn Pentyrch yn prynu lês ar y glofeydd yn Dihewyd a Thir yr Eglwys.

Thomas Powell, a oedd yn datblygu glofeydd yng Nghwm Cynon a ‘r Rhondda, oedd yn berchen ar lofa Llantwit yn 1845. Agorodd pedwar pwll, dau yn Dihewyd, yna Ystradberwig (ger tafarn y Ship) ac yna Tynynant.

Hefyd agorwyd pyllau gan berchnogion eraill yn yr 1860’au - Corporation Land Colliery, Llantwit Wallsend Colliery, Gelynog Llantwit Colliery a Llantwit Mine Colliery a agorwyd gan David Jones yn 1855.

Aeth y glofeydd i drafferthion yn ystod dirwasgiad canol yr 1870’au.

Roedd glofeydd i’r de o Efail Isaf yn Tynycoed a Craig Gwilym ac i’r dwyrain ar Fferm y Gedrys a Maes Mawr.



Glofa Dyhewid 1902

Map 1875



Carpenter's Arms

Un o adeiladau hynaf y pentref yw'r Carpenter's Arms. Bu'n fan cyfarfod i sefydlu Capel Tabernacl ac yn fwrlwm o fywyd diwylliannol yr ardal.

Roedd Gwaun hirion yn yn rhan o Ffrwd Phillip. Yn 1671 disgrifiwyd yr ardal yn ‘Tair gwayne hir alias gweynydd hirion and the forge’, y cyfeiriad cyntaf i’r pentref fel Efail.

Bwthyn Gweunydd Hirion safai ar y gornel pan symudodd teulu’r Bryant yno tua 1820. Ond erbyn cyfrifiad 1841 roedd Daniel Bryant yn cadw tafarn y Carpenters Arms yno.

Mae hanes y teulu Bryant yng nghlwm â'r dafarn am dros ganrif a'r enwocaf ohonynt, Tom Bryant, wedi derbyn clod rhyngwladol.



Tom Bryant

Mae hanes y teulu Bryant yng nghlwm â thafarn y Carpenter's Arms am dros ganrif. Mae'r enwocaf ohonynt, Tom Bryant, wedi derbyn clod rhyngwladol.

BRYANT , TOM (1882 - 1946), telynor ; g. 22 Gorff. 1882 yn y Carpenter's Arms , Efail Isaf , ger Pontypridd , Morgannwg . Yr oedd John Bryant (Bywg. , 50) yn ewythr iddo, ac ef a'i dysgodd i ganu'r delyn . Dechreuodd yn ieuanc gystadlu ac ennill gwobrwyon mewn eisteddfodau . Enillodd y wobr gyntaf yn yr eisteddfod genedlaethol 1891-1896. Ymwelodd ag ardaloedd y deheudir gyda ‘ Watcyn Wyn ’ ac ‘ Eos Morlais ’; darlithiai ‘ Watcyn Wyn ’ ar ganeuon gwerin, a chenid gan ‘ Eos Morlais ’ i gyfeiliant y delyn gan Tom Bryant .
Yn 1906 enillodd radd A.R.C.M.; yr un flwyddyn, ar achlysur agor doc newydd yng Nghaerdydd gan y brenin Edward VII , gwahoddwyd ef i ganu'r delyn i'w Fawrhydi. Ymwelodd â phrif drefi Prydain i gynnal cyngherddau gyda'r ‘ Golden Quartette ’. Cyfansoddodd ddarnau i'r delyn , ac amrywion ar yr alawon ‘ Merch y Felin ’ a ‘ Merch Megan ’. Bu f. 13 Ion. 1946, a chladdwyd ef ym mynwent Tabernacl, Efail Isaf, ger Pontypridd .
O'r Bywgraffiadur Ar-Lein y Llyfrgell Genedlaethol

Mae hanes y Teulu Bryant wedi ei gofnodi mewn rhifyn o'r Garth Domain > Bryant

Rheilffordd y Barri

Roedd cwm Taf ac ardal Llantrisant yn fwrlwm o reilffyrdd wrth i'r diwydiant glo ehangu. Agorwyd y rheilfford rhwng Llantrisant, Tonteg a Phontypridd yn 1875.

Ond David Davies, Llandinam, ddaeth a'r rheilffordd i Efail Isaf oherwydd y galw am wella'r cysylltiad rhwng ei lofeydd yn y Rhondda a'i Ddociau newydd yn y Barri.

Cwlblhawyd y rheilffordd yn 1889 a chludwyd dros miliwn o dunelli o lo yn y flwyddyn gyntaf.

Cychwynwyd cario teithwyr o orsaf Efail Isaf yn 1896 a rhedodd y trên olaf ar 10 Medi 1962.



Y Trên Olaf 1962

Cofnodi'r Hanes

Yn ffodus iawn mae Cymdeithas Hanes Llantrisant wedi olrhain hanes nifer o ffermydd yr ardal ac mae copiau o'r dogfennau hynny ar gael.

Ysgrifennwyd llyfr "MALLT O'R DYFFRYN" sy'n disgrifio mewn ffuglen hanes ardal Llanilltud Faerdref ar ddechrau'r 19ed ganrif.

Hefyd mae y diweddar Dillwyn Lewis, cyn-brifathro Ysgol Gynradd Maesybryn, wedi cyhoeddi llyfr o luniau o ardal Llanilltud Faerdref.



Mae Don Llewellyn a Chymdeithas Hanes Pentyrch wedi casglu hanes yr ardal ac mae nifer o gyfeiriadau i Efail Isaf yn y gyfres Garth Domain.

Llantrisant and District Local History Society Gwefan

Newsletter 52. February 1983 Coal Mining in and around Llantrisant.

Newsletter 93. September 1991 Celyn, Gedrys, Ty Draw and Croesged in Lantwit Fardre

Newsletter No. 97 April 1992 Dihewid, Dyffryn Dowlais and Garth.

No 112. January 1996. Dihewyd, a farm in Llantwit Fardre

Vol IV, No.2	J. Barry Davies	Llantwit Fardre
Vol VI, No.1	J. Barry Davies	Garth Fawr, Bryn y Menyn and Dyffryn Dowlais

LLANTRISANT & DISTRICT LOCAL HISTORY SOCIETY

PRESIDENT: Sir Cennydd Traherne K.G., T.D., Ll.D.

CHAIRMAN: Griffith J Evans HON SEC J Barry Davies

HON TREASURER: Trefor I Rees M.B.E.

NEWSLETTER NO 93 September 1991

CELYN, GEDRYS, TY DRAW & CROESGED in LANTWIT FARDRE

My reason for treating these four farms, which lie in different parts of the parish, and have differing tenures and histories of ownership, in one Nl. will become apparent as the argument unfolds. Ty Draw was part of the Prichard of Colleens Estate in Llantwit Fardre; Croesged (as sprinkled today) was an independent copy-hold farm; and Celyn and Gedrys were, in the 18th century, part of the Ash Hall (Tetradown) Estate.

All four farms appear in the 1841 Tithe Map and Schedules as follows:

Ty Draw and Croesged lie to the west of the parish church and, in 1841, belonged to Richard Franklin and Mr William Perkins respectively;

Celyn, on the lower north slope of the Garth, lies south of the Pontypridd to Talbot Green Road and north east of Efail Isaf village. In 1841 it belonged to one Thomas Phillips.

Gedrys lies between Mass Dach and Lan, overlooking the river Taff at Rhydhalig. It belonged to George Meade Esq. in 1841. The OS map works a small stream flowing from above Lan Farm, past Gedrys Farm and into the Taff at Rhydhalig as Nant y Gedrys.

I will begin with CELYN and GEDRYS which in the 18th century were part of the Ash Hall Estate. Celyn cannot be identified in the Surveys or rentals and, indeed, the name is not found in any record earlier than 1763/8 when it appears in the Land Tax Assessments. Likewise Gedrys does not appear in the Surveys and Rentals except as Demesne land known as Nant y Gedrisse (variously spelled), an identification which is slightly ambiguous because it is also used, in the 1570 Survey, in connection with a piece of freehold land near Croesged, which is nowhere near Nant y Gedrisse or the modern farm known as Gedrys. I believe this latter to be an error, but, nevertheless it seems best to include Croesged in this Nl. in order to clarify the matter. The references to Nant y Gedrisse as Demesne land, are quoted below and in App. 1 of Nl 92. Celyn does not appear anywhere in the Surveys as Demesne, free or copyhold, at least, not under the name of Celyn.

However, both Celyn and Gedrys are shown in the Land Tax Assessments, from 1767, as belonging to Mathew Deere Esq. who was of Ash Hall in Tetradown.

For all that, the said Mathew Deere does not appear, as either a freeholder or a copyholder, in the rentals of either the lordship of Malogan, or the manor of Pontyrch and Clun, from which we must deduce that these farms were former demesne land which had been sold off. I say demesne that has been sold off because Mathew Deere is not to be found in any 18th century surveys of Demesne or in any surviving records of leases of the Demesne.

The only plans we have of the lordship Demesne were made in 1824 and it is therefore very difficult to identify demesne that was sold off earlier than that. There are, however, several good old 18th century surveys of the lord's Demesne and that made by Thomas Browne in 1774, by which time Mathew Deere was certainly in possession of Celyn and Gedrys, is particularly thorough and accurate. And there is no trace of either of these farms in that.

It is therefore fortunate that Mathew Deere had his estate surveyed in 1745 and the plans survive in the Glamorgan Record Office. We have used these plans before because Mathew Deere also owned Hendreforgan, part of Gelly Darren and Tyloch Wen all in Llantrisant. Appendix "A" is based on these plans GRO C/VL.

Efail Isaf o Llanilltud Faerdref 1930 a 2010

Bwrlwm y Pentref

Mae Efail Isaf yn parhau yn fwrlwm o gymdeithasau a gweithgareddau. Rhown gipolwg ar rhai o ddigwyddiadau'r ganrif diwethaf.

Golygfa o'r Garth yn 1930 a 2010

Map 1899



Map 1920


Dyffryn Llantwit
Colliery
Old Shaft
Old Level
Iron Foundry
Llantwit
(Llanilltyd)
Old Shafts
Old Level
Station
Evelyn Villas
Spring
Celyn
Sheepwash
Capel
Tabernacl
Efailisaf
Carpenters' Arms
(P.H.)
Ffrud Philip
Cwm-ffrud
Ty-pica
Cwm Mill
Ty-mawr
Coed
400
500

Carnifal - 1950'au

Er mai pentref bach iawn oedd Efail Isaf hyd diwedd y 1960'au roedd digon o fywyd a hwyl i'w gael.

Lluniau o gasgliad Colin Davies

1950'au

Eira

1947

1982

1960'au

Urdd y Merched

Te Pensiynwyr

Golygfa Wledig

Neuadd y Pentref

Sefydlwyd y Neuadd gan y pentrefwyr yn dilyn ymgyrch i gasglu arian ac agorwyd y Neuadd yn 1966. Mae'r hanes ar wefan y Neuadd >> Gwefan.

Cychwyn y Neuadd newydd yn 1964.

Agor y Maes Parcio 2010

Corau y Pentref

Sefydlwyd **Côr Godre'r Garth** yn 1974 >> Gwefan.

Sefydlwyd **Merched y Garth** yn 1978.
Bu'n gôr cerdd dant llwyddiannus iawn. Ddaeth i ben yn 2012 a ffurfiwyd Côr yr Einion.

Ffurfiwyd **Parti'r Efail** yn 1995

Sefydlwyd **Côr yr Einion** yn 2012

Ffordd Osgoi

Rhwng Gwanwyn 2008 a Medi 2010 roedd Efail Isaf wedi ei amgylchynu gan weithfeydd wrth i Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys ysgubo drwy'r ardal. Costain oedd y prif adeiladydd o dan oruchwyliaeth Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf.